# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 84(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(20 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:**

Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Beth yw'r goblygiadau i Gymru yn dilyn y penderfyniad i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r sgandal gwaed halogedig?

**I Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (i'w ateb gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth):**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael ynghylch y swyddi a gaiff eu colli o ganlyniad i'r penderfyniad i gau swyddfeydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn Llanelli ac mewn rhannau eraill o Gymru?

**I Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:**

Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu atal swyddi rhag cael eu colli yng Coilcolor yng Nghasnewydd?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i gymeradwyo'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Pumed Cynulliad a nodi'r adroddiad cydymffurfio ar gyfer y cyfnod 2015-2017

(60 munud)

**NDM6365** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cymeradwyo Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad, yn unol â pharagraff 8(11)(d) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Gorffennaf 2017; a

2. Yn nodi'r Adroddiad Cydymffurfio ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer y cyfnod 2015-2017, yn unol â pharagraff 8(8) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Gorffennaf 2017.

**Dogfennau ategol:**

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad

Adroddiad Cydymffurfio ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad 2015-2017

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu at Adam Price (31 Mai 2017)

Llythyr gan Adam Price at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (6 Mehefin 2017)

## 6 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6348**

**David Melding (Canol De Cymru)**
**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**
**Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)**
**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**
**Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi mai Cymru yw'r unig un o'r gwledydd cartref sydd heb ganolfan rhewmatoleg bediatrig arbenigol;

2. Yn nodi bod tua 400 o blant yn ne Cymru yn unig sy'n dioddef o arthritis idiopathig ieuenctid;

3. Yn cydnabod yr angen am ganolfan rhewmatoleg bediatrig amlddisgyblaeth yng Nghymru;

4. Yn nodi bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau pediatrig arbenigol yng Nghymru; a

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi galwadau gan Gofal Arthritis, y Gymdeithas Arthritis Gwynegol Genedlaethol a Chymdeithas Brydeinig Rhewmatoleg ar gyfer creu canolfan rhewmatoleg bediatrig amlddisgyblaeth benodedig lwyr yng Nghymru.

**Cefnogir gan:**

Nick Ramsay (Mynwy)
Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)
Darren Millar (Gorllewin Clwyd)
Hefin David (Caerffili)

## 7 Dadl ar y Ddeiseb 'Amddiffyn Cerddoriaeth Fyw yng Nghymru'

(60 munud)

**NDM6362** David Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi deiseb P-05-756 Diogelu Cerddoriaeth Fyw yng Nghymru sydd wedi derbyn 5,383 o lofnodion.

'P-05-756 Diogelu Cerddoriaeth Fyw yng Nghymru'

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6363** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cofio Srebrenica

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Gorffennaf 2017 i'w hateb ar 12 Gorffennaf 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**1. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ysgolion gwledig? OAQ(5)0158(EDU)

**2. Huw Irranca–Davies (Ogwr):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith y grantiau datblygu disgyblion yn etholaeth Ogwr? OAQ(5)0160(EDU)

**3. Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ariannu addysg uwch yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0159(EDU)**W**

**4. Rhianon Passmore (Islwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod addysg gerddoriaeth yn hygyrch i bawb? OAQ(5)0152(EDU)

**5. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o ddatblygu ysgolion bro yng Nghymru? OAQ(5)0151(EDU)

**6. Lynne Neagle (Torfaen):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fonitro canlyniadau ei chynllun pum mlynedd, 'Dyfodol Byd-eang', i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru? OAQ(5)0155(EDU)

**7. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y polisi absenoldeb ar gyfer ysgolion yng Nghymru? OAQ(5)0149(EDU)

**8. David Rees (Aberafan):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu manylion ynghylch agenda STEM Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0154(EDU)

**9. Caroline Jones (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n astudio pynciau STEM ar lefel TGAU a Safon Uwch? OAQ(5)0156(EDU)

**10. David Rowlands (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am allu adran addysg Torfaen i gefnogi Ysgol Uwchradd Cwmbrân? OAQ(5)0146(EDU)

**11.** **Jeremy Miles (Castell-nedd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi staff ysgolion i ddarparu addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion? OAQ(5)0150(EDU)

**12.** **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ffioedd dysgu prifysgolion yng Nghymru? OAQ(5)0148(EDU)

**13.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am recriwtio athrawon cyflenwi yng Nghymru? OAQ(5)0147(EDU)

**14.** **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am addysgu ieithoedd yn ysgolion Cymru? OAQ(5)0145(EDU)**W**

**15.** **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am weithio rhanbarthol ym maes addysg? OAQ(5)0144(EDU)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am y goblygiadau cyfreithiol i Gymru o dynnu allan o gonfensiwn pysgodfeydd Llundain 1964? OAQ(5)0045(CG)**W**

**2.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r posibilrwydd o ddirymu erthygl 50? OAQ(5)0046(CG)

**3.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael am yr effaith y bydd y Bil diddymu mawr yn ei chael ar Gymru? OAQ(5)0044(CG)**W**

**4.** **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael ynghylch y goblygiadau cyfreithiol i Gymru o Fil diddymu Llywodraeth y DU? OAQ(5)0043(CG)